# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu gweithdrefn sy'n llywodraethu'r ffordd y mae swyddogion monitro a phwyllgorau safonau awdurdodau perthnasol i ymdrin â materion sy'n cael eu cyfeirio at y swyddog monitro ynghylch cydymffurfio â chod ymddygiad yr aelodau.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r rheoliadau hyn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i godi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol.

Serch hynny, erys dau bwynt mân i'w cywiro. Byddai'r rhain yn briodol i'w cynnwys mewn Memorandwm Cywiriadau.

- Rheoliad 8(6)(c) – dylai "uchod" fod yn "isod".
- Rheoliad 11(1)(b) – dylai "11(3)(b)" fod yn "10(3)(b)".

Ar yr amod bod y pwyntiau hyn yn cael eu cywiro'n briodol, nid oes dim materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan RhS 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

Bydd angen cwblhau troednodyn (dd) yn y fersiwn gyhoeddedig o'r rheoliadau.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

12 Mehefin 2001